
# Harbwr Diogel 5

# Calm Waters 5



## Gwybodaeth

## Information

www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion

# Harbwr Diogel 5



**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd yn atyniadau ac adnoddau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, deniadol a dymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.**

## Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser o holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser o fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio ac olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau a chyfarpar pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych neu wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
7. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohono yn yr harbyrau.
9. Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.**

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a
- Diogelwch

Gellir cael y wybodaeth uchod yn: [Yr Arfordir a Phorthladdoedd]

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon i gyd a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser.**

**Diweddariadau:**

**(1) Tîm Tymor yr Haf**

Yn ystod tymor yr haf, bu rhywfaint o newid yn Nhîm y Gwasanaethau Harbyrau. Penodwyd Chay Sanders i swydd Arweinydd Gwaith yr Harbyrau a phenodwyd Dafydd Richmond i'r rôl Cynorthwyydd Harbyrau Tymhorol. Ymunodd y ddau â Mervyn Jones a oedd wedi parhau yn ei rôl fel Cynorthwyydd Harbyrau Tymhorol. Gwnaeth y tri gydweithio'n wych fel tîm ac roeddent yn boblogaidd iawn wrth iddynt gyflawni eu gwaith yn ddiwyd dros yr haf.

Bu gyrfa Dafydd yn un hynod ddiddorol ac amrywiol hyd yma ac roedd newydd symud yn ôl o'r Ariannin cyn ymuno â Thîm y Gwasanaethau Harbyrau. Yn ddiweddar, penodwyd Dafydd i swydd newydd fel Swyddog Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau gyda'r Cyngor Sir ac rydym am ddymuno'r gorau iddo yn ei rôl newydd.

Mae Chay hefyd wedi cael gyrfa ddiddorol o fewn Llywodraeth Leol ac mae ef a'r teulu newydd ddychwelyd i Geredigion ar ôl bod yng Nghaerdydd. Bydd Chay yn aros gyda Thîm y Gwasanaethau Harbyrau yn llawn amser drwy gydol y flwyddyn.

**(2) Cyfarfodydd Pwyllgorau Defnyddwyr yr Harbyrau**

Cynhelir cyfarfodydd nesaf Pwyllgorau Defnyddwyr yr Harbyrau yn rhithiol ar Zoom ar **19 Hydref 2023** ar yr amseroedd canlynol:

17:30 Aberaeron

18:15 Ceinewydd

19:00 Aberystwyth

Er bod y Pwyllgorau yn cynnig cyfle i drafod materion, mae nifer o ffyrdd y gall y rhanddeiliaid gysylltu â'r Gwasanaethau Harbyrau drwy'r flwyddyn i drafod materion o ddydd i ddydd. Gallant gwrdd â'r swyddogion wyneb yn wyneb yn yr Harbyrau neu gallant gysylltu â Clic, canolfan gyswllt y Cyngor: clic@ceredigion.gov.uk / 01545 570881.

**(3) Cynlluniau Rheoli Gwastraff Porthladdoedd**

Mae'r gwaith o gwblhau'r Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladdoedd yn parhau ac unwaith y caiff ei gymeradwyo gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, caiff ei roi ar waith yn y tri harbwr. Cwblhawyd y gwaith o gyflwyno'r seilwaith i gefnogi'r cynllun dros gyfnod yr haf ac felly mae'n barod i'w roi ar waith yn y dyfodol agos. Bydd y cyfleusterau ar gyfer gwaredu gwastraff, a fydd ar gael i'r defnyddwyr hamdden yn unig, yn cynnwys:

1) Gwastraff cyffredinol
2) Ailgylchu Cymysg (gan gynnwys metelau, papur, cerdyn, plastig)

3) Batris
4) Hidlyddion olew

Caiff gwastraff y defnyddwyr masnachol ac unrhyw fath o wastraff na enwir uchod ei wrthod a bydd disgwyl i ddefnyddwyr yr harbyrau wneud eu trefniadau eu hunain i waredu'r gwastraff hwn gan sicrhau bod y trefniadau yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â defnyddio'r cyfleusterau hyn yn cael ei rannu maes o law â phob defnyddiwr hamdden sydd ag angorfa.

### (4) Ymgynghoriad ynghylch Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion

Mae'r Ymgynghoriad ynghylch Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion bellach yn fyw a bydd yn dod i ben ar **20 Hydref 2023**.

Mae mwy o wybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael drwy ddilyn y ddolen isod.

Ymgynghoriad ynghylch Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion

### (5) Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Aberaeron

Mae'n dda gan Gyngor Sir Ceredigion gadarnhau bod contract y gwaith bellach wedi'i ddyfarnu. Y bwriad yn awr yw dechrau'r gwaith ar y safle ym mis Rhagfyr 2023. Bydd Gwasanaeth yr Harbyrau yn parhau i ddiweddaru holl Ddefnyddwyr Harbwr Aberaeron yn ôl yr angen.

### (6) Cynnal a chadw'r harbyrau

Ym mis Mawrth a mis Ebrill 2023, cynhaliodd y Gwasanaeth Harbyrau waith cynnal a chadw ar y cadwyni yn Harbwr Ceinewydd. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i gyflawni'r un gwaith yn Aberaeron, roedd lefel y dŵr ar y pryd hwnnw yn rhy uchel i'r peiriannau a'r gweithwyr felly nid oedd modd iddynt fynd at y cadwyni. Serch hynny, cafodd y cadwyni eu hymestyn rhywfaint a'u hail-osod, a chafodd y malurion eu tynnu ymaith cyn i'r cychod gael eu gosod yn eu priod lefydd.



Gwnaed y gwaith cynnal a chadw canlynol dros yr haf:

- gwaith i'r Pier yng Ngheinewydd
- gwaith i rai o'r marciau mordwyo yn yr Harbyrau
- glanhau'r Grid Sychu yn Aberystwyth.

Hefyd, mae Tîm yr Harbyrau wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith tacluso cyffredinol yn ardal yr harbyrau ac mae Tîm Cynnal a Chadw Tiroedd y Cyngor wedi bod yn chwynnu yng Ngheinewydd ac Aberystwyth. Bydd y gwaith hwn yn parhau a byddem yn ddiolchgar pe gallai Defnyddwyr yr Harbyrau sicrhau nad ydynt yn gadael nac yn storio unrhyw eitemau sydd heb eu hawdurdodi nac yn gadael unrhyw wastraff ar Ystadau'r Harbyrau.

### (7) Iechyd a Diogelwch– Cyfrifoldeb ar bawb

Mae nifer o wahanol garfannau yn defnyddio'r harbyrau ac maent yn weithleoedd i rai ohonom. Mae'r Gwasanaeth Harbyrau wastad yn barod i gefnogi a hwyluso pob ymdrech i'w defnyddio'n ddiogel cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. Mae Iechyd a Diogelwch yn gyfrifoldeb ar bawb ac rydym felly yn diolch i bob un o'r rhanddeiliaid am eu hagwedd gadarnhaol a rhagweithiol tuag at sicrhau bod yr harbyrau yn llefydd diogel a dymunol i'w defnyddio ac ymweld â nhw.

O ystyried hyn, hoffem atgoffa defnyddwyr yr harbyrau na ddylai unrhyw raffau, cadwyni na dyfeisiau/cyfarpar angori fod ynghlwm wrth ysgolion ar unrhyw adeg. Nid dyma yw diben yr ysgolion ac mae unrhyw beth sydd ynghlwm wrthynt yn cyfyngu ar y defnydd y gellir ei wneud o'r ysgolion gan greu peryglon o ran baglu a pheryglon eraill i ddefnyddwyr eraill yr harbwr, heb sôn am y posibilrwydd o ddifrodi'r ysgolion. Hefyd, ni ddylid defnyddio ysgolion i angori unrhyw gwch/llong, hyd yn oed os mai dim ond dros dro y bwriedir gwneud hynny.

Rhaid i unrhyw eitemau yr ydych chi wedi'u clymu wrth ysgolion ar ystâd yr harbyrau gael eu tynnu i ffwrdd a'u storio neu eu gwaredu'n briodol. Bydd y Gwasanaeth Harbyrau yn cynnal archwiliadau rheolaidd a dirybudd ac os bydd yn gweld bod eitemau ynghlwm wrth ysgolion, bydd yn mynd â'r eitemau hynny oddi yno ac yn eu gwaredu.

### (8) Cymorthfeydd i ddefnyddwyr yr harbyrau

Yn ystod cyfarfod diwethaf Pwyllgor Defnyddwyr yr Harbyrau, cytunwyd y byddai cyfarfodydd ar ffurf cymorthfeydd yn cael eu cynnal ar amseroedd penodol ym mhob Harbwr, fel y gallai defnyddwyr yr harbyrau drafod unrhyw faterion neu bryderon gyda Rheolwr yr Harbyrau (neu, yn ei absenoldeb, Arweinydd Gwaith yr Harbyrau) wyneb yn wyneb.


Cynhelir y cymorthfeydd bob mis (ar wahân i fis Hydref a mis Mawrth) ym mhob un o swyddfeydd yr harbyrau. Mae'r manylion fel a ganlyn:

Aberystwyth- Dydd Mawrth diwethaf y mis am 14:00

Aberaeron – Dydd Mercher diwethaf y mis am 14:00
Ceinewydd – Dydd Iau diwethaf y mis am 14:00

## (9) Cod Ymddygiad Bae Ceredigion

Atgoffir pob un o ddefnyddwyr yr harbyrau y dylent fod yn ymwybodol o God Morol Gogledd a Gorllewin Cymru ym Mae Ceredigion ac y dylent gydymffurfio ag ef. Gallwch weld copi o'r cod isod. Mae'r Cyngor yn dymuno atgoffa pob defnyddiwr i ddilyn y Cod ar bob adeg.




## (10) Cymhorthion mordwyo a Hysbysiadau Lleol i Forwyr

Mae pob un o'r cymhorthion mordwyo (goleuadau, marciau a bwiau mordwyo) y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol amdanynt yn cael eu harchwilio bob mis am unrhyw ddiffygion. Os caiff unrhyw ddiffygion eu canfod, caiff Hysbysiad Lleol i Forwyr ei gyhoeddi. Caiff hysbysiad arall wedyn ei gyhoeddi pan fydd y diffygion neu'r problemau wedi'u datrys.

Gofynnir i ddefnyddwyr yr harbyrau roi gwybod i dîm yr harbyrau os byddant yn dod yn ymwybodol o unrhyw ddiffygion (er enghraifft, os bydd un o'r marciau wedi mynd ar goll neu os bydd golau wedi'i ddiffodd). Os byddwch am ddarparu gwybodaeth am unrhyw ddiffygion, mae'r manylion cyswllt i'w gweld yn adran 14 isod.

Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi Hysbysiadau Lleol i Forwyr i roi gwybod i forwyr am unrhyw weithrediadau neu waith a allai effeithio ar ddiogelwch mordwyo yn y cyffiniau.

O gofio hyn, cynghorir pob un o ddefnyddwyr yr harbyrau i gymryd sylw o bob Hysbysiad Lleol i Forwyr sy'n cael eu harddangos y tu allan i bob un o Swyddfeydd yr Harbyrau yng Ngheinewydd, Aberaeron ac Aberystwyth. Y bwriad yn y dyfodol agos yw sicrhau y bydd yr Hysbysiadau Lleol i Forwyr y mae Tîm yr Harbyrau yn eu cyhoeddi ar gael ar wefan y Cyngor.

### (11) Terfynau amser llym ar gyfer ceisiadau

Bydd Awdurdod yr Harbyrau yn fwy llym o ran y terfynau amser ar gyfer ceisiadau angori. Rhaid dychwelyd y ceisiadau ynghylch 'Cadarnhau'r Gofynion o ran Angori yn yr haf a'r gaeaf' erbyn **y dyddiad a nodir ar y dogfennau adnewyddu a anfonwyd atoch.** Os caiff y cais ei gymeradwyo, caiff yr anfoneb ei hanfon ymlaen, a rhaid i chi dalu'r ffi angori yn llawn erbyn **y dyddiad a nodir ar yr anfoneb.** Os na chydymffurfir â'r gofynion hyn, caiff yr angorfa ei rhoi i rywun arall yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

### (12) Yswiriant

Atgoffir Defnyddwyr yr Harbyrau bod angen iddynt, ar bob adeg, feddu ar yswiriant priodol a dilys ar gyfer eu cychod/llongau pan fyddant wedi'u hangori neu wedi'i lleoli yn y cyfleusterau storio dros y gaeaf. Mae hyn wedi'i nodi yn y ffurflenni cais ynghylch 'Cadarnhau Gofynion o ran Angori dros y gaeaf a'r haf'. Fel rhan o'r cais, rhaid i ddeiliaid angorfeydd gadarnhau y bydd ganddynt yswiriant addas.

### (13) System Cofnodi Digwyddiadau

Atgoffir Defnyddwyr yr Harbyrau bod angen iddynt roi gwybod i Dîm y Gwasanaethau Harbyrau am unrhyw ddigwyddiadau, damweiniau neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Bydd hyn wedyn yn golygu y gall y Cyngor ystyried a oes angen iddo gymryd unrhyw gamau wrth ymateb i'r hyn a gofnodwyd.

Gallwch chi roi gwybod i Dîm yr Harbyrau am unrhyw ddigwyddiadau sydd angen eu cofnodi drwy ymweld â Swyddfeydd yr Harbyrau yn ystod eu horiau agor neu drwy gysylltu â ni yn y ffyrdd sydd wedi'u nodi yn adran 14 isod.

### (14) Rhoi adborth a chysylltu â ni

Gallwch chi gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau yn y ffyrdd canlynol:

Ar e-bost: clic@ceredigion.gov.uk
Dros y ffôn: 01545 570 881
Drwy'r Post:
Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

Rydym yn croesawu ac yn annog adborth adeiladol ac edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

**Gyda diolch,**

**Tîm yr Harbyrau (Haf 2023)**

*Owen Morgan MNI, Rheolwr yr Harbyrau*

*Chay Sanders, Arweinydd Gwaith yr Harbyrau*

*Mervyn Jones, Cynorthwyydd Harbyrau Tymhorol*

*Dafydd Richmond, Cynorthwyydd Harbyrau Tymhorol*

# Harbwr Diogel 5

## Calm Waters 5



www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru•Love
Ceredigion